ADRODDIAD BLYNYDDOL

PWYLLGOR

SAFONAU YMDDYGIAD

CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

2003 - 2004

Cynnwys

1. Cyflwyniad

2. Cylch Gwaith y Pwyllgor

3. Cwynion

4. Rhaglen Waith a Gweithgareddau

   - Y Flaenraglen Waith
   - Adolygu'r Gweithdrefnau Safonau
   - Y Seiri Rhyddion
   - Y Cynghorydd Annibynnol ar Safonau Ymddygiad
   - Rôl y Cynghorydd Annibynnol yn y Dyfodol
   - Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad
   - Y Drefn Gwyno
   - Cofrestr Buddiannau'r Aelodau
   - Materion Eraill

5. Casgliadau'r Pwyllgor ar Safonau Moesegol (Rheol Sefydlog 16.1(v))

Atodiadau

Atodiad A: Cylch gorchwyl y Pwyllgor
Atodiad B: Crynodeb o'r cwynion a gyflwynwyd yn erbyn Aelodau'r Cynulliad 1999-2004

Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD

ADRODDIAD I'R CYNULLIAD

1. Cyflwyniad

1.1 Dyma bumed adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau Ymddygiad i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 16. Mae'n ymwneud â'r cyfnod o 1 Awst 2003 tan 31 Rhagfyr 2004. Cafodd cyfnod yr adroddiad hwn ei ymestyn i gyd-fynd â dyddiad y drafodaeth flynyddol.

1.2 Mae'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad yn un o chwe Phwyllgor Sefydlog y Cynulliad. Dyma aelodau'r Pwyllgor yn ystod cyfnod yr adroddiad:

Cadeirydd
Kirsty Williams, Brycheiniog a Sir Faesyfed (cyfnod mamolaeth o 12.05.04 tan 05.10.04)
Mick Bates, Sir Drefaldwyn (o 12.05.04 tan 05.10.04)

Aelodau
Jeff Cuthbert, Llafur, Caeffili
David Davies, Ceidwadwyr, Mynwy
Jocelyn Davies, Plaid Cymru, Dwyrain De Cymru
Tamsin Dunwoody Kneafsey, Llafur, Preseli Sir Benfro
Sandy Mewies, Llafur, Delyn
Lynne Neagle, Llafur, Tor-faen
Gwenda Thomas, Llafur, Castell-nedd
Owen John Thomas, Plaid Cymru, Canol De Cymru
Brynle Williams, Ceidwadwyr, Gogledd Cymru

1.3 Cyfarfu'r Pwyllgor 6 gwaith yn ystod y cyfnod dan sylw. Yn unol â'r Rheolau Sefydlog, cynhaliwyd y cyfarfodydd yn gyhoeddus. Mae manylion rhaglen waith a gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod y flwyddyn wedi'u hamlinellu isod. [brig]

2. Cylch Gwaith y Pwyllgor

2.1 Mae Rheol Sefydlog 16 yn nodi cylch gwaith y Pwyllgor Safonau, a'r gofynion o ran aelodaeth, rôl y Cynghorydd Annibynnol mewn perthynas

â safonau, cyfarfodydd ac adroddiadau. Mae copi o Reol Sefydlog 16 yn Atodiad A.

2.2 Prif swyddogaeth y Pwyllgor yw ystyried cwynion a gyfeirir ato gan y Llywydd ac unrhyw faterion o egwyddor yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r Cynulliad yn gyffredinol. Mae'r Pwyllgor hefyd yn goruchwylio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau [brig]

3. Cwynion

3.1 Mae crynodeb o'r holl gwynion yn erbyn Aelodau'r Cynulliad ers dechrau'r Cynulliad Cenedlaethol i'w weld yn Atodiad B. Yn ystod cyfnod yr Adroddiad, dim ond dau gwyn a gyfeiriwyd at y Pwyllgor - a chafodd y ddau eu gwrthod yn unfrydol. Cyflwynwyd Adroddiadau'r Pwyllgor mewn perthynas â'r cwynion hyn gerbron y Cynulliad.

3.2 Er mai dim ond dau gwyn a gyfeiriwyd ato, bu'n rhaid i'r Pwyllgor wynebu cryn dipyn o anawsterau a sawl her newydd yn ystod y cyfnod hwn. Am y tro cyntaf erioed, tynnodd y Cynghorydd Annibynnol yn ôl mewn achos o gwyn. Golygai hyn fod angen i'r Cynulliad benodi Cynghorydd Annibynnol ychwanegol i ymdrin yn benodol â'r cwyn arbennig hwnnw'n unig.

3.3 Roedd hyn yn dir newydd i'r Pwyllgor, ond yn dilyn ystyriaeth flaenorol cytunwyd i gysylltu â chyrff deddfwriaethol eraill y DU, i geisio enwebeion i ymgymryd â'r ymchwiliad hwn. Roedd y Pwyllgor yn ddiolchgar iawn i seneddau eraill y DU am eu cymorth, ac o ganlyniad, penodwyd Mr Tom Frawley, Ombwdsman Cynulliad Gogledd Iwerddon. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch yn ffurfiol i Mr Frawley am ei holl waith mewn perthynas â'r cwyn hwn.

3.4 Am y tro cyntaf hefyd, bu'n rhaid i'r Pwyllgor wynebu achos o ddatgelu adroddiad cyfrinachol heb ganiatâd. Adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor gan y Cynghorydd Annibynnol oedd hwn, yn ymdrin â chwyn yn erbyn Aelod Cynulliad. Ymddengys i'r adroddiad gael ei ddatgelu'n gwbl fwriadol a chafodd hyn ei gondemnio'n unfrydol gany Pwyllgor fel enghraifft amlwg o dorri ymddiriedaeth, a chytunwyd yn unfrydol i ymchwilio i'r mater. Cyflwynwyd Adroddiad y Pwyllgor mewn perthynas â'r mater gerbron y Cynulliad ar 17 Ionawr 2005. [brig]

4.Y Rhaglen Waith a'r Gweithgareddau

4.1 Roedd llwyth gwaith y Pwyllgor yn parhau i fod yn drwm. Ystyriodd y Pwyllgor nifer o faterion hirdymor a manwl, ac ymgymerwyd â llawer o waith yn ystod y flwyddyn yng nghyswllt yr eitemau a ganlyn:

Y Flaenraglen Waith

4.2 Ym mis Gorffennaf 2003, cytunodd y Pwyllgor ar ei flaenraglen waith a oedd yn amlinellu'r meysydd y bydd yn canolbwyntio arnynt dros y 2 flynedd nesaf.

4.3 Rhoddwyd blaenoriaeth i'r tro maes a ganlyn:

i. Yr Adolygiad o Weithdrefnau Safonau'r Cynulliad gan yr Athro Woodhouse a threfniadau Safonau Ymddygiad y Cynulliad;
ii. Y Seiri Rhyddion
iii. Rôl y Cynghorydd Annibynnol yn y Dyfodol

4.4 Delio â'r tri maes hwn wnaeth y Pwyllgor yn bennaf yn ystod y cyfnod dan sylw, a bydd yn parhau i wneud hynny dros y misoedd nesaf. Bydd y Pwyllgor yn ceisio mabwysiadu ei flaenraglen waith ar gyfer y ddwy flynedd nesaf yn gynnar yn 2005. [brig]

Adolygu'r Gweithdrefnau Safonau

4.5 Bu'r Pwyllgor yn parhau i ystyried a gweithredu argymhellion adroddiad yr Athro Diana Woodhouse wedi iddi adolygu'r Gweithdrefnau Safonau yn y Cynulliad.

4.6 Canolbwyntiodd yr adolygiad ar bum maes pendol: awdurdod y Pwyllgor; effeithiolrwydd y Drefn Gwyno; rôl y Llywydd; rôl y Cynghorydd Annibynnol yng nghyswllt Safonau Ymddygiad; a chytundebau cyfatebol sefydliadau democrataidd eraill yn y DU; a gwnaeth 31 o brif argymhellion mewn perthynas â'r meysydd cyffredinol a ganlyn:

i) cynnwys y Safonau Ymddygiad a'r ffordd y cânt eu cyflwyno
ii) y materion a'r symiau y dylid eu cofrestru yng Nghofrestr Buddiannau'r Aelodau;
iii) cyfrifoldebau mewn perthynas â rhoi cyngor i'r Aelodau ac ymchwilio i gwynion yn erbyn Aelodau;
iv) cynnal gwrandawiadau mewn perthynas â chwynion a ffyrdd o gosbi Aelodau nad ydynt wedi cydymffurfio â'r safonau.

v) rôl y grwpiau gwleidyddol o ran hybu "Diwylliant Safonau" ;
vi) materion lle mae angen newid deddfwriaeth sylfaenol

4.7 Gwnaeth y Pwyllgor gynnydd sylweddol yn ystod y flwyddyn o ran gweithredu llawer o argymhellion yr adroddiad. Treuliodd y Pwyllgor y rhan fwyaf o'i amser yn ymdrin â hyn yn ystod y cyfnod hwn, a bydd yn parhau'n gonglfaen ym Mlaenraglen Waith y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn nesaf. [brig]

Y Seiri Rhyddon

4.8 Yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2003, ailystyriodd y Pwyllgor yn fanwl iawn y rheidrwydd ar Aelodau'r Cynulliad i gofrestru aelodaeth o'r Seiri Rhyddion. Cytunodd y Pwyllgor fod y casgliadau a gyflwynwyd i'r Cyfarfod Llawn fis Tachwedd 2002 yn eu hanfod yn gywir, sef :

i. Nad oedd tystiolaeth gadarn o gamymddygiad yn erbyn y Seiri Rhyddion fel sefydliad.
ii. Ei bod yn anodd pennu a yw'r Seiri Rhyddion yn sefydliad unigryw, a fyddai'n cyfiawnhau eu trin yn wahanol i bob sefydliad arall.
iii. Pennwyd nad oedd unrhyw gorff deddfwriaethol arall yn y DU yn gofyn i'w Aelodau gofrestru aelodaeth o'r Seiri Rhyddion.

4.9 Yn benodol, er bod y Pwyllgor o'r farn bod perygl sylweddol o hyd i rywun ddwyn achos cyfreithiol yn erbyn y Cynulliad, roedd yn bwysig canolbwyntio ar degwch gan ofalu bod y Cynulliad yn cael ei weld yn ymddwyn yn gyson ac yn deg yng nghyswllt hawliau dynol. O ganlyniad, cytunodd y Pwyllgor i argymell y dylai Aelodau'r Cynulliad gofrestru aelodaeth o unrhyw glwb sydd ag aelodaeth 'gaeedig'.

4.10 Nod y Pwyllgor yw cyflwyno adroddiad gerbron y Cyfarfod Llawn maes o law. [brig]

Y Cynghorydd Annibynnol ar Safonau Ymddygiad

4.11 Mae Rheol Sefydlog 16.3 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cynulliad benodi rhywun i roi cyngor a chymorth i'r Llywydd ar unrhyw fater yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r Cynulliad a chynorthwyo'r Pwyllgor, drwy wahoddiad, yn ei ymchwiliadau. Penodwyd Mr Richard Penn yn Gynghorydd Annibynnol ar Safonau Ymddygiad ar 15 Mawrth 2000.

4.12 Mae'r Pwyllgor yn cydnabod rôl allweddol y Cynghorydd Annibynnol o ran helpu'r Llywydd a'r Pwyllgor Safonau Ymddygiad. Bu Mr Penn yn

weithgar yn y ddwy rôl a hoffai'r Pwyllgor ddiolch iddo am ei gyfraniad i'w waith. [brig]

Rôl y Cynghorydd Annibynnol yn y Dyfodol

4.13 Rôl y Cynghorydd Annibynnol yw un o 5 prif thema'r Adroddiad a gynhyrchwyd gan yr athro Diana Woodhouse. Mae'r Pwyllgor wedi ystyried argymhellion yr Athro Woodhouse yn fanwl yn ystod y flwyddyn diwethaf, ac wedi argymell sefydlu swydd Comisiynydd Safonau'r Cynulliad Cenedlaethol a fydd yn disodli rôl y Cynghorydd Annibynnol. Ar y dechrau bydd y swydd yn anstatudol, ond mae'r Pwyllgor wedi cytuno o ran egwyddor y dylid cyflwyno achos o blaid sefydlu Comisiynydd statudol pan fyddai cyfle deddfwriaethol addas yn codi.

4.14 Bydd y Comisiynydd yn gyfrifol am roi cyngor a chymorth i'r Llywydd ar unrhyw fater yn ymwneud ag ymddygiad Aelodau'r Cynulliad a bydd modd galw arno i roi tystiolaeth ffeithiol i Bwyllgor Safonau Ymddygiad y Cynulliad ar unrhyw fater a gyflwynir iddo. Hefyd, bydd gan y Comisiynydd gyfrifoldeb dros oruchwylio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau'n gyffredinol, a bydd yn gallu argymell mentrau polisi mewn perthynas â'r Gofrestr.

4.15 Mae'r Pwyllgor wedi cymeradwyo newidiadau i'r Rheolau Sefydlog, a fydd yn rhoi mwy o annibyniaeth i'r Comisiynydd ynghyd â rôl fwy canolog yn y drefn gwyno. Caiff y newidiadau i'r Rheolau Sefydlog eu cyflwyno i'w cymeradwyo gan y Cyfarfod Llawn yn gynnar yn 2005.

4.16 Mae'r broses o benodi Comisiynydd Safonau ar y gweill ers tro. Bydd y Cynulliad yn penodi rhywun yn ffurfiol yn unol â'r Rheoliadau Sefydlog. Mae'r Pwyllgor yn gobeithio y bydd mewn sefyllfa i argymell penodi rhywun ym mis Mawrth 2005. [brig]

Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad

4.17 Ym mis Tachwedd 2003, cymeradwyodd y pwyllgor God Ymddygiad ar gyfer Aelodau'r Cynulliad i ddisodli'r Cod Safonau gwreiddiol ar gyfer Aelodau'r Cynulliad a fabwysiadwyd ym mis Mai 1999. Cynigiwyd y dylid llunio Cod diwygiedig yn sgil argymhellion penodol adroddiad Woodhouse, a alwodd am God newydd a fyddai'n:

- Cynnwys y Canllawiau a'r Protocolau presennol mewn ffordd gydlynus;
- Yn cynnwys adrannau penodol yn ymwneud â'i ddibenion ac ymddygiad disgwyliedig yr Aelodau

4.18 Cafodd y Cod Ymddygiad newydd ei gymeradwyo yn y Cyfarfod Llawn ar 14 Ionawr 2004 [brig]

Y Drefn Gwyno

4.19 Effeithiolrwydd y Drefn Gwyno yw un o 5 prif thema'r Adroddiad a gynhyrchwyd gan yr Athro Diana Woodhouse, ac roedd yn ffurfio canran uchel o argymhellion yr Adroddiad. Yn ystod y 12 mis diwethaf, mae'r Pwyllgor wedi bod yn gweithio i lunio trefn newydd sy'n ystyried yr argymhellion a wnaed. Cafodd y Drefn Gwyno newydd ei chymeradwyo gan y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2004, a chaiff ei gweithredu'n amodol ar gymeradwyo'r newidiadau angenrheidiol i'r Rheol Sefydlog. [brig]

Cofrestr Buddiannau'r Aelodau

4.20 Caiff Cofrestr Buddiannau'r Aelodau ei chadw a'i chyhoeddi'n gan y Swyddfa Gyflwyno yn unol â'r canllawiau a gyhoeddwyd a'r Rheolau Sefydlog. Mae adroddiad 'byw' ar y Gofrestr ar gael ar-lein ac mae'n cael ei ddiweddaru'n rheolaidd, wrth i fanylion ddod i law.

4.21 Mae Clerc y Pwyllgor yn cyflwyno adroddiadau ar ddatblygiadau'r Gofrestr yng nghyfarfodydd y Pwyllgor. Mae'r Swyddfa Gyflwyno yn dal i gael ymholiadau ynghylch buddiannau Aelodau unigol a'r Aelodau'n gyffredinol. Daw'r rhan fwyaf o'r ymholiadau gan y cyhoedd a'r wasg. Fodd bynnag, ychydig o ddiddordeb a fu yn y Gofrestr yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn.

4.22 Yn dilyn pryderon Aelodau'r Cynulliad, ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor ffurflen newydd ar gyfer Cofrestru Buddiannau'r Aelodau. Mae'r ffurflen newydd yn cynnwys canllawiau sylfaenol ac yn nodi'r gofynion allweddol ar gyfer Cofrestru. Cafodd y ffurflen newydd ei chymeradwyo gan y Llywydd a'i dosbarthu i'r Aelodau ei defnyddio.

4.23 Cymeradwyodd y Pwyllgor hefyd y canllawiau diwygiedig ar Gofrestru a Datgan Buddiannau Aelodau mewn perthynas ag a) Tir ac Eiddo - cynnig canllawiau pellach ar eiddo preswyl personol; a b) Cyflogi Plant Dibynnol. Caiff y canllawiau diwygiedig eu cyflwyno gerbron y Cyfarfod Llawn i'w hystyried yn gynnar yn 2005. [brig]

Materion Eraill

4.24 Yn ystod cyfnod yr adroddiad bu'r Pwyllgor yn ystyried ac yn rhoi cyngor i'r Llywydd ac eraill ar amryw o faterion. Yn eu plith roedd mater yn ymwneud â datgelu adroddiadau cyfrinachol y Pwyllgor a'r Cod Ymarfer drafft ar gyfer Aelodau Pwyllgor y Ty. [brig]

5. Casgliadau'r Pwyllgor ar Safonau Moesegol (Rheol Sefydlog 16.1(v))

5.1 O'r dystiolaeth a gyflwynwyd i'r Pwyllgor yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn, ymddengys nad oes fawr o le i boeni am safonau moesegol yr Aelodau. Gwnaed cryn gynnydd o ran cryfhau'r system ar gyfer monitro a chadw safonau ymddygiad uchel ymhlith Aelodau'r Cynulliad, ac o ran ceisio sicrhau bod yr Aelodau'n cadw at y safonau hynny drwy wella'r canllawiau a'r cymorth sydd ar gael iddynt.

5.2 Mae'r Pwyllgor o'r farn, fodd bynnag, na ddylid llaesu dwylo os ydym am gynnal y safonau moesegol uchaf. Bydd y Pwyllgor yn parhau i ystyried, fel rhan o'i adolygiad parhaus o'r Gweithdrefnau Safonau, sut i adeiladu ar y safonau moesegol presennol i greu "Diwylliant Safonau" yn y Cynulliad. Yn ystod 2005 cymerir camau pendant tuag at gyflawni hyn, drwy benodi Comisiynydd Safonau, a chymeradwyo gwell trefniadau ar gyfer delio â chwynion. [brig]

Y PWYLLGOR SAFONAU YMDDYGIAD, Rhagfyr 2004

ATODIAD A

RHEOL SEFYDLOG 16 – Y Pwyllgor Safonau Ymddygiad

Teitl a Chylch Gwaith

16.1 Bydd Pwyllgor Safonau Ymddygiad, a fydd:

(i) yn ymchwilio i unrhyw gwyn y cyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio â rheol sefydlog 4 neu unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglyn â buddiannau ariannol neu fuddiannau eraill yr Aelodau, yn adrodd ar y gwyn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gwyn, neu fod un o Ysgrifenyddion y Cynulliad heb gydymffurfio â gofynion paragraff 2.8;

(ii) yn ymchwilio i unrhyw gwyn a gyfeirir ato gan y Llywydd fod Aelod heb gydymffurfio ag unrhyw benderfyniad gan y Cynulliad ynglyn â safonau ymddygiad yr Aelodau neu'r canllawiau i'r Gweinidogion y bydd y Cynulliad wedi'u cymeradwyo yn unol â pharagraff 2.7, yn adrodd ar y gwyn honno ac, os bydd yn briodol, yn argymell y camau y dylid eu cymryd mewn perthynas â'r gwyn neu'r Cod Ymddygiad o dan Reol Sefydlog 36.14;

(iii) yn ystyried unrhyw fater o egwyddor ynglyn ag ymddygiad yr Aelodau yn gyffredinol;

(iv) yn goruchwylio'r trefniadau ar gyfer llunio Cofrestr Buddiannau'r Aelodau, a ffurf a chynnwys y Gofrestr, a'r trefniadau ar gyfer cadw'r Gofrestr a sicrhau ei bod yn hygyrch; a

(v) yn cyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad ar nifer y cwynion a wnaed i'r Llywydd o dan (i) a (ii) a'r camau a gymerwyd, ac ar ei gasgliadau ynglyn â safonau moesegol wrth gynnal busnes y Cynulliad.

Aelodaeth

16.2 Bydd y Cynulliad yn ethol Aelod i gadeirio'r Pwyllgor, ynghyd ag Aelodau eraill a etholir cyn belled ag y bo'n ymarferol i adlewyrchu cydbwysedd y grwpiau gwleidyddol yn y Cynulliad. Ni fydd y Llywydd yn aelod o'r Pwyllgor, ond bydd ganddo ef neu ganddi hi hawl i fod yn bresennol mewn unrhyw gyfarfod Pwyllgor, neu i gyflwyno papurau iddo, er mwyn tynnu ei sylw at unrhyw ystyriaethau y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

Cynghorydd Annibynnol

16.3 Bydd y Cynulliad yn penodi person nad yw'n Aelod o'r Cynulliad nac yn aelod o'i staff i roi cyngor a chymorth i'r Llywydd ar unrhyw fater ynglyn ag ymddygiad yr Aelodau; a gall y Pwyllgor, yn ogystal â phenodi ei gynghorydd ei hun fel y bo'n briodol o dan baragraff 8.14, wahodd y sawl a benodir gan y Cynulliad i ymchwilio i faterion ffeithiol sy'n codi o unrhyw fater dan ei sylw.

Cyfarfodydd

16.4 Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod cyn gynted ag y bo modd ar ôl i gwyn gael ei chyflwyno iddo gan y Llywydd; ac ar adegau eraill y bydd y cadeirydd yn ei gynnull.

16.5 Gall y Pwyllgor gyfarfod yn gyhoeddus neu'n breifat, ond wrth ystyried cwyn, bydd y Pwyllgor yn cyfarfod yn breifat oni fydd yn penderfynu fel arall. Os bydd ef neu hi'n gofyn am hynny, caniateir i unrhyw Aelod sydd neu a all fod yn destun ymchwiliad gan y Pwyllgor gyflwyno sylwadau llafar neu ysgrifenedig iddo a gall person arall (a all gymryd rhan yn y trafodion gyda chaniatâd y cadeirydd) fod yn bresennol gydag ef neu hi mewn gwrandawiadau llafar.

16.6 Ar ôl ymgynghori â'r Llywydd, gall y cadeirydd alw i'r pwyllgor gyfarfod yn ystod wythnos lle nad yw'r Cynulliad yn cynnal Cyfarfod Llawn er mwyn ystyried materion brys sydd o bwys i'r cyhoedd.

Adroddiadau

16.7 Os bydd y Pwyllgor wedi ymchwilio i gwyn sydd wedi'i gyflwyno iddo gan y Llywydd, bydd yn adrodd i'r Cynulliad cyn gynted ag y bo modd ar ôl cwblhau'r adroddiad ar yr ymchwiliad. Gall y Pwyllgor adrodd i'r Cynulliad ar faterion eraill o fewn ei gylch gwaith o bryd i'w gilydd.

[brig]

Atodiad B

Safonau Ymddygiad

Crynodeb o Gwynion yn Erbyn Aelodau'r Cynulliad : 1999 tan fis Rhagfyr 2004

	Cwynion a gyfeiriwyd at y Cynghorydd Annibynnol[1]	Cwynion a wrthodwyd gan y Llywydd	Cwynion a dynnwyd yn ôl gan yr achwynydd	Cyfeiriwyd at y Pwyllgor Safonau	Gwrthodwyd gan y Pwyllgor	Cadarnhawyd gan y Pwyllgor	Dim penderfyniad hyn yn hyn[2]
1999	0	0	0	0	0	0	0
2000[3]	13	8	0	5	4	1	0
2001	6	4	0	2	1	1	0
2002	9	8	1	0	0	0	0
2003	8	7	0	1	1	0	0
2004	10	7	1	1	1	0	1
Cyfanswm	**46**	**34**	**2**	**9**	**7**	**2**	**1**

Nodiadau

[1] Yn cynnwys dim ond y cwynion hynny sy'n bodloni'r meini prawf yng Ngham 4 Cyfnod Rhagarweiniol Trefn Gwyno'r Cynulliad.
[2] 1 cwyn a gyfeiriwyd at y Cynghorydd Annibynnol erbyn 31/12/04.
[3] Cafodd Gweithdrefn Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar gyfer Delio â Chwynion yn Erbyn Aelodau'r Cynulliad eu cymeradwyo gan y Pwyllgor Safonau Ymddygiad ar 6 Gorffennaf 2000. [brig]